OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 2289 (Cy.201)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed - - - -	*15 Medi 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*17 Medi 2010*
Yn dod i rym - -	*20 Hydref 2010*

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1), 16(3), 17(1), 18(1)(c), 19(1)(b), 26 a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) a pharagraffau 1 a 4(b) o Atodlen 1 iddi, ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2010 a deuant i rym ar 20 Hydref 2010.

(**1**) 1990 p.16; disodlwyd adran 1(1) a (2) (y diffiniad o "food") gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adrannau 17, 19 a 48 gan baragraffau 12, 14 a 21 yn eu trefn o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), "Deddf 1999". Diwygiwyd adran 48 hefyd gan O.S. 2004/2990. Diwygiwyd adran 26(3) gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 53(2) gan baragraff 19 o Atodlen 16 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (1994 p.40), Atodlen 6 i Ddeddf 1999, O.S. 2004/2990 ac O.S. 2004/3279.

(**2**) Mae'r swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" (sef, o ran Cymru a Lloegr ac yn gweithredu ar y cyd, y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd a'r Ysgrifenyddion Gwladol a oedd yn eu trefn yn ymwneud ag iechyd yn Lloegr a bwyd ac iechyd yng Nghymru ac, o ran yr Alban, yr Ysgrifennydd Gwladol) bellach yn arferadwy o ran Lloegr gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999 ac wedyn fe'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n addasu nifer o offerynnau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468/EC mewn perthynas â'r weithdrefn reoleiddiol ynghyd â chraffu: Addasiad i'r weithdrefn reoleiddiol ynghyd â chraffu — Rhan Pedwar (OJ Rhif L188, 18.7.2009, t.14).

Diwygio Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2009

2. Diwygir Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymru) 2009(**4**) yn unol â rheoliadau 3 i 6.

3. Yn nhestun Cymraeg Atodlen 2 (trwyddedau) yn lle'r geiriau "risg sylweddol" ym mharagraff 2(i) o Ran 1 rhoddir "risg o bwys".

4. Yn Atodlen 2 (trwyddedau) yn lle is-baragraff (1)(b) o baragraff 9 o Ran 3 (y gofynion a'r gwaharddiadau sydd i'w dilyn gan drwyddedai)—

(1) yn y testun Saesneg rhoddir yr is-baragraff a ganlyn—

"(b) its batch number;", a

(2) yn y testun Cymraeg rhoddir yr is-baragraff a ganlyn—

"(b) Rhif y swp;".

5. Yn lle Atodlen 3 (rhestr o gyfleusterau a gymeradwywyd mewn Aelod-wladwriaethau) rhoddir yr Atodlen a geir yn Atodlen 1.

6. Yn lle Atodlen 4 (rhestr o gyfleusterau mewn gwlad y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd) rhoddir yr Atodlen a geir yn Atodlen 2.

Gwenda Thomas
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

15 Medi 2010

(**4**) O.S. 2009/1795 (Cy.162).

ATODLEN 1 Rheoliad 5

ATODLEN A RODDIR YN LLE ATODLEN 3 I REOLIADAU ARBELYDRU BWYD (CYMRU) 2009

"ATODLEN 3 Rheoliadau 3(1) a 5(1)(b)(i)

RHESTR O GYFLEUSTERAU A GYMERADWYWYD MEWN AELOD-WLADWRIAETHAU

Rhif cyfeirnod swyddogol	*Enw a chyfeiriad*
2110/91/0004	Sterigenics SA Zoning Industriel B-6220 Fleurus Gwlad Belg
01/23.05.2008	BULGAMMA SOPHARMA Ltd Iliensko Shosse Str.16 Sofia Bwlgaria
IR-02-CZ	BIOSTER a.s. Tejny 621 664-71 Veverska Bityska Y Weriniaeth Tsiec
SN 01	Gamma-Service Produktbestrahlung GmbH Juri-Gagarin Strasse 15 D-01454 Radeberg Yr Almaen
BY FS 01/2001	Isotron Deutschland GmbH Kesselbodenstrasse 7 D-85391 Allershausen Yr Almaen
NRW-GM 01 ac NRW-GM 02	BSG Beta-Gamma-Service GmbH & Co. KG

Rhif cyfeirnod swyddogol	*Enw a chyfeiriad*
	Fritz-Kotz-Str.16 D-51674 Wiehl Yr Almaen
D-BW-X-01	Beta-Gamma-Service GmbH & Co. KG John-Deere-Strasse 3 D-76646 Bruchsal Yr Almaen
500001/CU	Ionmed Esterilización, SA Santiago Rusiñol 12. Madrid Antigua Cntra Madrid-Valencia KM 83.7. Tarancón Cuenca Sbaen
5.00002/B	ARAGOGAMMA S.A. Salvador Mundi 11, bajo. 08017 Barcelona Carretera Granoolers a Cardedeu km 3,5. 08520 Les Franqueses dêsVallés Barcelona Sbaen
13055 F	Isotron France SAS Rue Jean Queillau Marché des Arnavaux F-13014 Marseille Cedex 14 Ffrainc
01 142 F	Ionisos SA Zone Industrielle les Chartinières F-01120 Dagneux

Rhif cyfeirnod swyddogol	*Enw a chyfeiriad*
	Ffrainc
72 264 F	Ionisos SA Zone Industrielle de l'Aubrée F-72300 Sablé-sur-Sarthe Ffrainc
85 182 F	Ionisos SA ZI Montifaud F-85700 Pouzauges Ffrainc
10 093 F	Ionisos SA Zone Industrielle F-10500 Chaumesnil Ffrainc
EU-AIF-04-2002	AGROSTER Besugárzó Részvénytársaság Budapest X Jászberényi út 5 H-1106 Hwngari
RAD 1/04 IT	GAMMARAD ITALIA SPA Via Marzabotto, 4 Minerbio (BO) Yr Eidal
GZB/VVB-991393 Ede	Isotron Nederland BV Morsestraat 3 6716AH Ede Yr Iseldiroedd
GZB/VVB-991393 Etten-Leur	Isotron Nederland BV Soevereinsestraat 2 4879NN Etten-Leur